O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 1117 (Cy. 269)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanymddyfri, Stryd Lydan a Heol y Brenin) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho Dros Dro) 2016

Gwnaed	*9 Tachwedd 2016*
Yn dod i rym	*22 Tachwedd 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Tachwedd 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanymddyfri, Stryd Lydan a Heol y Brenin) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho Dros Dro) 2016.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 22 Tachwedd 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Chyfyngiad

Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar unrhyw adeg

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, gael ei lwytho nac ei ddadlwytho ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

Gwahardd Aros ar unrhyw adeg

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho (07:30 o'r gloch – 09:30 o'r gloch a rhwng 15:30 o'r gloch – 04:00 o'r gloch)

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, gael ei lwytho na'i ddadlwytho rhwng 07:30 o'r gloch – 09:30 o'r gloch a rhwng 15:30 o'r gloch – 04:00 o'r gloch ar ochrau'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Llwytho a Dadlwytho yn Unig (04:00 o'r gloch – 07:30 o'r gloch a rhwng 09:30 o'r gloch – 15:30 o'r gloch)

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei lwytho na'i ddadlwytho ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar unrhyw adeg ac eithrio rhwng 04:00 o'r gloch – 07:30 o'r gloch a rhwng 09:30 o'r gloch – 15:30 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

Cymhwyso

7. Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal Dros Dro

8. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Llanymddyfri) (Cyfyngu ar Aros) 1973(**1**) yn cael eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1, 2, 3 a 4 yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad a bennir yn erthyglau 3 i 6 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 09 Tachwedd 2016

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 1973/1674.

ATODLEN 1

Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar unrhyw adeg

i) Ochr ddeheuol Stryd Lydan o bwynt 36 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines hyd at bwynt 53 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines.

ii) Ochr ogleddol Heol y Brenin o'i chyffordd â Sgwâr y Farchnad hyd at bwynt 98 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Sgwâr y Farchnad.

iii) Ochr ddeheuol Heol y Brenin o bwynt 53 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines hyd at bwynt 77 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines.

iv) Ochr ddeheuol Heol y Brenin o bwynt 89 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines hyd at bwynt 153 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines.

ATODLEN 2

Gwahardd Aros ar unrhyw adeg

i) Ochr ogleddol Heol y Brenin o bwynt 60 o fetrau i'r gorllewin o ganol Stryd Cerrig hyd at bwynt 78 o fetrau i'r gorllewin o ganol Stryd y Castell.

ii) Ochr ddeheuol Heol y Brenin o bwynt 60 o fetrau i'r gorllewin o ganol Stryd Cerrig hyd at bwynt 83 o fetrau i'r gorllewin o ganol Stryd Cerrig.

ATODLEN 3

Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho (07:30 o'r gloch – 09:30 o'r gloch a rhwng 15:30 o'r gloch – 04:00 o'r gloch)

Ochr ddeheuol Heol y Brenin o bwynt 77 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines hyd at bwynt 89 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines rhwng 07:30 o'r gloch – 09:30 o'r gloch a rhwng 15:30 o'r gloch – 4:00 o'r gloch.

ATODLEN 4

Llwytho a Dadlwytho yn Unig (04:00 o'r gloch – 07:30 o'r gloch a rhwng 09:30 o'r gloch – 15:00 o'r gloch)

Ochr ddeheuol Heol y Brenin o bwynt 77 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines hyd at bwynt 89 o fetrau i'r dwyrain o linell cwrb orllewinol Ffordd y Frenhines rhwng 04:00 o'r gloch – 07:30 o'r gloch a rhwng 09:30 o'r gloch – 15:30 o'r gloch.